Creu Siop Sero-Wastraff yn eich Lleoliad



Amcanion dysgu:

Deall beth yw gorsaf ail-lenwi diwastraff a sut mae'n helpu i leihau pecynnu plastig un tro.

Archwilio sut y gall lleoliad blynyddoedd cynnar gyflwyno gorsaf ail-lenwi fach y gellir ymdopi â hi.

Cydnabod sut y gall gorsafoedd ail-lenwi gefnogi dysgu plant am ailddefnyddio, gofalu am adnoddau, a dewisiadau cynaliadwy.

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

Arbed ac Ailddefnyddio

Gwybodaeth ymarferydd:

Mae datblygu dealltwriaeth plant o wastraff a chynaliadwyedd yn dod yn fwyfwy pwysig. Mae gormod o wastraff yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, gan gyfrannu at lygredd, colli cynefinoedd a mwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gynhyrchu, cludo a gwaredu nwyddau.

Defnyddir llawer o eitemau bob dydd am gyfnod byr yn unig cyn cael eu taflu, gan roi pwysau ar adnoddau naturiol a safleoedd tirlenwi. Mae ymchwil yn dangos y gall lleihau gwastraff, ailddefnyddio deunyddiau a gwneud dewisiadau prynu meddylgar helpu i warchod adnoddau a lleihau niwed i'r amgylchedd.

Beth yw gorsaf ail-lenwi diwastraff?

Mae gorsaf ail-lenwi diwastraff yn ardal syml lle mae eitemau bob dydd yn cael eu prynu a'u storio mewn cynwysyddion mwy a'u hail-lenwi mewn cynwysyddion amldro llai pan fo angen.

Mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, gall hyn helpu i leihau pecynnu untro, arbed arian, a dangos ffyrdd syml i blant a theuluoedd ofalu am yr amgylchedd. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n prynu un cynhwysydd mawr o gynnyrch a gall teuluoedd ddod â'u potel, jar neu dwb glân eu hunain i ail-lenwi swm llai.

Mae hyn yn golygu bod angen prynu a thaflu llai o gynwysyddion plastig bach.



Dechrau'n fach

Nid oes angen i orsaf ail-lenwi fod yn siop lawn.

Gall ddechrau fel system fach, ymarferol ar gyfer ail-lenwi ychydig o eitemau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd, tra'n helpu plant i sylwi ar ailddefnyddio, gofalu am adnoddau, a dewisiadau cynaliadwy bob dydd.

Dechreuwch trwy benderfynu beth yw pwrpas eich gorsaf ail-lenwi. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, y nod fydd lleihau gwastraff o ychydig o eitemau bob dydd ac ailddefnyddio mewn ffordd ddiogel a syml i blant a theuluoedd.

Dechreuwch ar raddfa fach drwy ddewis dim ond dau neu dair eitem y mae'r lleoliad eisoes yn eu defnyddio'n rheolaidd. Bydd hyn yn gwneud y system yn haws i'w rheoli a'i hadolygu.

Efallai y byddwch chi'n dechrau gyda:

- Sebon dwylo neu hylif golchi llestri
- Papur toiled
- Te, coffi
- Pasta neu reis
- Blawd, neu siwgr
- Sbeis a pherlysiau
- Basged fach o gynwysyddion sbâr glân i deuluoedd eu defnyddio



Gallwch ehangu i:

- Ymgyrch cewynnau go iawn – cewynnau y gellir eu hailddefnyddio
- Gwerthu'r ffrwythau a'r llysiau rydych chi'n eu tyfu yn y lleoliad.
- Eitemau bwyd mewn tuniau wedi'u rhoi fel rhoddion

Sut i ddechrau

Dewiswch le diogel sydd wedi'i labelu'n glir, gyda chynwysyddion sy'n hawdd eu glanhau, gan sicrhau bod unrhyw gynhyrchion sy'n gofyn am oruchwyliaeth yn cael eu cadw allan o gyrraedd plant a'u bod yn cael eu rheoli gan oedolion. Ffordd syml o ddechrau yw defnyddio silff fach neu droli sy'n cynnwys cynwysyddion wedi'u labelu ac ychydig o jariau neu boteli y gellir eu hailddefnyddio a'u hail-lenwi. Gall teuluoedd ddod â'u cynwysyddion glân eu hunain o'r cartref, neu gall y lleoliad ddarparu rhai sbâr pan fo angen.

Gall y lleoliad ddewis codi ffi fach am bob ail-lenwi i helpu i dalu cost prynu cynhyrchion mewn symiau mawr; mae hyn yn gwneud y system yn hunangynhaliol ac yn gallu creu gwarged bach i gefnogi gweithgareddau neu adnoddau cynaliadwyedd.

Ar ôl ychydig wythnosau, adolygwch sut mae'r system yn gweithio drwy ystyried a yw teuluoedd yn ei defnyddio, a yw'r costau'n cael eu talu, a pha mor hawdd yw hi i'r staff ei rheoli. Wedi hynny, gallwch benderfynu a ddylech barhau fel y mae, cyflwyno eitem ychwanegol, neu wahodd teuluoedd i gyfrannu cynwysyddion a syniadau i helpu'r fenter i dyfu.





Dysgu trwy ymarfer

Mae eich gorsaf ail-lenwi yn wych ar gyfer cefnogi dysgu. Gall plant gyfarch eich cwsmeriaid, helpu i nodi pryd mae angen ail-lenwi cynwysyddion, didoli jariau a chynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, a siarad am pam mae ailddefnyddio eitemau yn well na'u taflu i ffwrdd. Gallant ddechrau deall, pan fydd teuluoedd yn ail-lenwi un cynhwysydd yn hytrach na phrynu llawer o rai bach ar wahân, bod llai o becynnu plastig yn cael ei ddefnyddio yn y pen draw.

Mae hyn yn cadw'r syniad yn ymarferol ac ystyrlon yn hytrach na'i gyflwyno fel rhywbeth rhy fawr neu gymhleth.

Enghreifftiau

Am ganllaw i sut mae siopau diwastraff yn gweithio, pa fath o bethau maen nhw'n eu stocio a mwy o wybodaeth, edrychwch ar y 'Canllaw i ddechreuwyr i siopau di-wastraff' hwn:

- A Beginner's Guide to Refill Shops < Honest + Simple

Mae hon hefyd yn enghraifft wych o siop ddiwastraff:

- Natural Weigh - Wales' first zero waste shop



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

The Moondance Foundation

Arbed ac Ailddefnyddio